



General  
Osteopathic  
Council

# **Arolwg Peilot Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: adroddiad ar y canfyddiadau a'r argymhellion**

**Mawrth 2023**

## Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Cyflwyniad	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Adran 1 yr arolwg: Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch	<b>Error!</b>
<b>Bookmark not defined.</b>	
Adran 2 yr arolwg: Gwybodaeth amdanoch chi	10
Adran 3 yr arolwg: Safbwyntiau ar ddata y gellir ei briodoli	15
Adran 4 yr arolwg: Unrhyw sylwadau eraill a wnaed gan ymatebwyr	15
Argymhellion	16
Atodiad A	18
Atodiad B	25

## **Crynodeb Gweithredol**

Mae Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-24<sup>1</sup> y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo tegwch, gwerthfawrogi amrywiaeth a chroesawu cynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys gwella'r broses systematig o fonitro data amrywiaeth ledled y sefydliad, cwblhau arolwg cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ledled y proffesiwn a dadansoddi'r data sy'n dod i law.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried canfyddiadau arolwg peilot EDI a lanswyd ym mis Chwefror 2022 yn ogystal ag adborth a dderbyniwyd yn ystod grwpiau ffocws ar-lein gydag aelodau o'r proffesiwn osteopathig a gynhaliwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2022, ac yna rhagor o grwpiau ffocws ar-lein ym mis Mawrth a mis Ebrill 2022.

Nod y gyfres gyntaf o grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar 27 Ionawr a 1 Chwefror 2022 oedd casglu safbwyntiau ar y negeseuon rydym yn gobeithio eu defnyddio wrth ofyn am ddata gan osteopathiaid ar eu nodweddion gwarchoddedig. Gofynnwyd i osteopathiaid am eu safbwyntiau ar yr arolwg EDI a'r daflen wybodaeth gysylltiedig. Cynhaliwyd rhagor o grwpiau ffocws ar-lein gydag aelodau o'r proffesiwn osteopathig ar 28 Mawrth a 26 Ebrill 2022.

Cwblhaodd cyfanswm o 56 o osteopathiaid yr arolwg peilot EDI rhwng 15 Chwefror a 30 Ebrill 2022. Dyma'r 9 nodwedd warchoddedig a archwiliwyd yn yr arolwg peilot:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu greddo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Trwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at wahaniaethu fel triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol sy'n seiliedig ar un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir uchod.

### **Prif ganfyddiadau**

- Yn gyffredinol, roedd sampl yr arolwg peilot EDI yn gynrychiadol o boblogaeth y DU, yn enwedig mewn perthynas ag anabledd, ethnigrwydd a hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, roedd cynrychiolaeth osteopathiaid gwrywaidd ac anneauaidd, ac osteopathiaid a oedd yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, ychydig yn llai na ffynonellau data poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016-2020 a data Cyfrifiad 2021 a ryddhawyd yn ddiweddar.

---

<sup>1</sup> [osteopathy.org.uk/about-us/our-work/equality-and-diversity/](https://osteopathy.org.uk/about-us/our-work/equality-and-diversity/)

- Trwy ddefnyddio'r arolwg peilot EDI, rydym wedi gallu casglu mwy o safbwyntiau osteopathiaid sydd â nodweddion gwarchoddedig lleiafrifol nag yn ein gwaith ymgysylltu a gwaith ymchwil blaenorol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan eu cydweithwyr (67%), roedd gan ychydig dros hanner ymdeimlad o berthyn yn y proffesiwn (53%), ac roedd ychydig yn llai na hanner yn teimlo bod y proffesiwn yn gwerthfawrogi amrywiaeth (46%).
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod cyfleoedd teg i bobl â phob nodwedd warchoddedig ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi.
- Roedd osteopathiaid yn tueddu i nodi eu bod wedi cael ychydig yn fwy o brofiadau o ddiodef sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth hyfforddi (43%) o'i gymharu â'u 12 mis diwethaf o ymarfer (23.5%). Nododd 37-39% o sampl yr arolwg peilot eu bod wedi cael profiadau o wahaniaethu, naill ai profiadau unigol neu eu bod yn gwybod am brofiadau cydweithwyr.
- Cyfeiriwyd at gydweithwyr mewn perthynas â sylwadau ac ymddygiad digroeso yn ymwneud â dwy nodwedd warchoddedig: beichiogrwydd ac anabledd. Roedd y profiadau yn tueddu i ymwneud â chydweithwyr yn darparu'r wybodaeth bersonol hon i gleifion heb ganiatâd na gwybodaeth ymlaen llaw.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78%) yn anfodlon cynnwys eu henw a/neu eu rhif cofrestru (data y gellir ei briodoli) yn yr wybodaeth ddemograffig a ddarparwyd ganddynt. Dyma'r rhesymau a nodwyd dros beidio â theimlo'n gyfforddus yn gwneud hyn (o'r mwyaf cyffredin i'r lleiaf cyffredin):
  - Yn anghytuno bod y data hwn yn cael ei gadw ar gyfer pawb (e.e. gwybodaeth sensitif/bersonol na ddylai'r Cyngor ei gwybod, preifatrwydd hunaniaeth, rhagfarn cadarnhau).
  - Ddim yn ymddiried yn y Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath.
  - Poeni am ddial os yw darparwyr addysg yn cael gafael ar yr wybodaeth.
  - Mater o ddewis, ac mae darparu dau opsiwn yn golygu y gallaf ddewis yr opsiwn hwn a bod yn fwy gonest.
  - Mae'n well gen i beidio â dweud pam nad ydw i'n teimlo'n gyfforddus am ddarparu'r wybodaeth hon.
- Nododd rhai osteopathiaid eu bod yn poeni am yr hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud gyda'r data hwn, gan gwestiynu beth sy'n digwydd os yw'r rhai sy'n cofrestru yn datgelu bod ganddynt anabledd wrth gofrestru. Mae hyn yn dangos pam mae casglu data EDI yn gallu bod yn heriol, gan fod y ddeddfwriaeth reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â hi yn cynnwys gofynion fel y rhai sy'n ymwneud ag 'iechyd da' ar gyfer ymgeiswyr newydd i'r Gofrestr.

## Argymhellion

Mae canfyddiadau ein harolwg peilot EDI yn dangos bod angen i'n gwaith yn y maes hwn ganolbwyntio ar gefnogi cynhwysiant yn y ffyrdd canlynol:

- 1) **Casglu data EDI:** mae canfyddiadau'r arolwg peilot yn dangos nad yw lleisiau osteopathiaid â nodweddion gwarchoddedig lleiafrifol yn cael eu clywed bob amser. Felly, mae'n rhaid i ni barhau i geisio sicrhau ac ehangu cynhwysiant a lleisiau ystod amrywiol o osteopathiaid yn ein gwaith.
- 2) **Trwy ein gwaith gyda darparwyr addysg osteopathig er mwyn sicrhau addysg o ansawdd uchel i fyfyrwyr:** cryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a darpariaethau codi llais mewn safonau a chanllawiau addysgol, a dechrau cyfres o drafodaethau ar y cyd â darparwyr addysg osteopathig, pobl ag anableddau a rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i rannu'r hyn a ddysgir yn barhaus a hwyluso addasiadau rhesymol.
- 3) **Sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r proffesiwn osteopathig yn agored ac yn gynhwysol:** mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'n rhan o Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor Osteopathig Cyffredinol<sup>2</sup>. Parhau i hyrwyddo cynhwysiant yn y proffesiwn osteopathig drwy ddatlu digwyddiadau diwylliannol a chrefyddol blynyddol amrywiol ar ein sianeli, cynnwys mwy o amrywiaeth yn ein cyfathrebu a sicrhau ein bod yn parhau i ofyn am gyngor ac adborth arbenigol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol yn ein prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu, recriwtio a gweithgareddau eraill.
- 4) **Darparu adnoddau ychwanegol yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth i gefnogi DPP:** rydym yn gobeithio dechrau'r gwaith hwn drwy goladu a rhannu adnoddau ar-lein gan reoleiddwyr eraill, megis adnoddau gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn ymwneud â phynciau fel sut i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithle, gofal iechyd pobl drawsrywedol a chamymddwyn rhywiol. Rydym yn ceisio estyn allan at grwpiau buddiant allanol fel darparwyr DPP er mwyn eu hannog i ymgorffori cynhwysiant, amrywiaeth a chydaddoldeb yn eu cyrsiau hyfforddi presennol neu ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant EDI pwrpasol, er mwyn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynhwysiant, amrywiaeth a chydaddoldeb i gleifion a chydweithwyr.

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhannu canfyddiadau ein harolwg peilot Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), a oedd yn gofyn am adborth gan osteopathiaid ar ein dull o fonitro data EDI ledled y proffesiwn osteopathig. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau rydym yn dymuno eu gofyn fel rhan o'r broses flynyddol o adnewyddu flynyddol er mwyn casglu data gan osteopathiaid i'n helpu i ddeall sut mae ein prosesau yn effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.
2. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yn ein Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-

---

<sup>2</sup>Mae rhagor o fanylion am y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gael yma: [osteopathy.org.uk/comms-strategy](https://osteopathy.org.uk/comms-strategy)

24 ac mae'n ategu cyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd ym mis Ionawr – Ebrill 2022 gydag osteopathiaid. Nod y grwpiau ffocws oedd casglu eu safbwyntiau ar ein harolwg peilot EDI a'u profiadau ym meysydd hyfforddiant ac ymarfer. Mae Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau'r grwpiau ffocws hyn a sut y defnyddiwyd yr adborth hwn i ddatblygu'r arolwg peilot EDI.

3. Roedd yr arolwg peilot Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cynnwys pedair adran gan gynnwys:
  - Taflen wybodaeth yn egluro pam rydym eisiau diweddarau'r wybodaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd gennym am osteopathiaid.
  - Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas â'r proffesiwn osteopathig: pum cwestiwn i helpu osteopathiaid i feddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a materion tegwch o safbwynt eu profiadau fel osteopath gweithredol neu rywun sy'n hyfforddi i fod yn osteopath. Roedd y pum cwestiwn yn ceisio canfod a oedd ymatebwyr yn teimlo a) bod y proffesiwn osteopathig yn gwerthfawrogi amrywiaeth, b) bod gwahaniaethau unigryw yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn, c) bod yna ymdeimlad o berthyn yn y proffesiwn osteopathig d) eu bod yn cael eu parchu gan gydweithwyr ac e) bod pobl â phob mathau o nodweddion gwarchodedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi.
  - Gwybodaeth amdanoch chi: roedd yr adran hon yn ceisio darganfod a oedd unrhyw un o'r naw nodwedd warchodedig yn berthnasol i'r ymatebwyr, a natur eu patrwm gwaith (priodoledd nodwedd nad yw'n cael ei gwarchod).
  - Data y gellir ei briodoli: roedd yr adran hon yn ceisio darganfod sut roedd ymatebwyr yn teimlo am gynnwys eu henw a'u rhif cofrestru yn yr wybodaeth ddemograffig a ddarparwyd ganddynt, a'r rhesymau dros eu hateb.
4. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo i osteopathiaid ar wefan gyhoeddus y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, mewn tri bwletin e-bost misol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, hyrwyddwyd yr arolwg yn uniongyrchol i randdeiliaid gan gynnwys arweinwyr grwpiau osteopathig rhanbarthol. Cwblhaodd 56 o bobl cofrestredig yr arolwg rhwng 15 Chwefror a 30 Ebrill 2022.

### **Adran 1 yr arolwg: Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas â'r proffesiwn osteopathig**

5. Canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan eu cydweithwyr (67%), bod ganddynt ymdeimlad o berthyn yn y proffesiwn (53%), a bod y proffesiwn yn gwerthfawrogi amrywiaeth (46%). Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fynegi safbwyntiau cryf ynglŷn ag a oedd gwahaniaethau unigryw yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn (38%). Mewn cyferbyniad, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw pobl â phob un o'r nodweddion gwarchodedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi (gweler Tabl 1).

**Tabl 1: Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch**

Datganiad	Anghytuno'n gryf/ Anghytuno (-)	Dim safbwynt cryf	Cytuno'n gryf / Cytuno (+)	Cyfanswm a ymatebodd i'r cwestiwn
Mae'r proffesiwn osteopathig yn gwerthfawrogi amrywiaeth	14 (26%)	15 (28%)	25 (46%)	54
Rwy'n teimlo bod fy ngwahaniaethau unigryw yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn osteopathig <sup>3</sup>	16 (31%)	20 (38%)	16 (31%)	52
Mae gennyf ymdeimlad o berthyn yn y proffesiwn osteopathig	15 (30%)	9 (17%)	29 (53%)	54
Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy mharchu gan fy nghydweithwyr	6 (11%)	12 (22%)	36 (67%)	54
Mae pobl â phob un o'r nodweddion gwarchodedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi <sup>4</sup>	23 (43%)	14 (26%)	16 (30%)	53

6. Wrth astudio'r ddemograffeg yn fanylach mewn perthynas â'r 5 datganiad hyn yn Nhabl 1, gallwn weld bod ymatebwyr â nodweddion gwarchodedig lleiafrifol (o ran ethnigrwydd a hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a statws priodasol) yn **llai tebygol** o deimlo:

- bod y proffesiwn yn gwerthfawrogi amrywiaeth
- bod gwahaniaethau unigryw yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn osteopathig
- bod pobl â phob un o'r nodweddion gwarchodedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi
- bod tueddiad i osteopathiaid a nododd eu bod yn perthyn i'r grwpiau gwarchodedig hyn fod yn llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn yn y proffesiwn, o gymharu â sampl yr arolwg cyffredinol.

7. Pan ofynnwyd i osteopathiaid am eu profiadau o sylwadau neu ymddygiad digroeso, nododd yr ymatebwyr fod hyn wedi tueddu i ddigwydd ychydig yn amlach yn ystod eu hyfforddiant i fod yn osteopath (43%) nag yn ystod y 12 mis diwethaf o ymarfer (23.5%). Nododd 37-39% o ymatebwyr, sef ychydig yn llai na hanner sampl yr arolwg peilot, eu bod wedi cael profiadau unigol o wahaniaethu, neu eu bod yn gwybod am brofiadau cydweithwyr o hynny (gweler Tabl 2).

<sup>3</sup>Er enghraifft, gwahaniaethau ar sail oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall

<sup>4</sup>Er enghraifft, nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol)

**Tabl 2: Profiadau o sylwadau, ymddygiad a gwahaniaethu digroeso**

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Cyfanswm a ymatebodd i'r cwestiwn
Ydych chi erioed wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth hyfforddi i fod yn osteopath a oedd, yn eich barn chi, yn sarhaus neu'n anffafriol (e.e. jôcs amhriodol, sylwadau, difriö, sibrydion, clecs niweidiol, mathau o ymddygiad ynysu)?	25 (43%)	29 (54%)	54
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth ymarfer fel osteopath a oedd yn sarhaus neu'n anffafriol yn eich barn chi <sup>5</sup> ?	12 (23.5%)	39 (76.5%)	51
Ydych chi erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu hunaniaeth <sup>6</sup> ?	21 (39%)	33 (61%)	54
A oes cydweithiwr erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar ei gefndir neu hunaniaeth <sup>7</sup> ?	20 (37%)	34 (63%)	54

8. Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth hyfforddi i fod yn osteopath wedi nodi enghreifftiau (76% neu 19 osteopath), ac roeddent yn gysylltiedig â thiworiaid, myfyrwyr a/neu gleifion yn y clinigau addysgu. Yn gyffredinol, roeddent yn ymwneud â'r canlynol:

- Sylwadau neu ymddygiad rhywiol amhriodol a/neu annerbyniol neu wahaniaethu ar sail rhyw (5)
- Sylwadau neu ymddygiad amhriodol a/neu annerbyniol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol e.e., homoffobia (3)
- Methu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anabledau hysbys yn y sefydliadau addysg osteopathig (3)
- Sylwadau amhriodol a/neu annerbyniol yn ymwneud ag ethnigrwydd a/neu grefydd e.e., sylwadau hiliol, bwlio (2)
- Sylwadau amhriodol a/neu annerbyniol am acen (2)
- Arall (5) Roedd y rhain yn amrywio o 'gormod i'w rhestru', rhagfarn ar sail oedran, sylwadau amhriodol am ddelwedd y corff/nodweddion corfforol wrth weithredu fel model mewn dosbarthiadau techneg, ac amharodrwydd i gwestiynu cydsyniad yn y lleoliadau hyn.

<sup>5</sup>Er enghraifft, jôcs amhriodol, sylwadau, difriö, sibrydion, clecs niweidiol, mathau o ymddygiad ynysu?

<sup>6</sup>Er enghraifft, oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall

<sup>7</sup>Er enghraifft, oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall



9. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr a oedd wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth ymarfer yn ystod y 12 mis diwethaf wedi nodi enghreifftiau o'r fath (92% neu 11 osteopath). Yn gyffredinol, roeddent yn ymwneud â'r materion canlynol (ac yn bennaf yn ymwneud â chleifion):
- Sylwadau amhriodol a/neu annerbyniol neu amlygu diffyg dealltwriaeth o faterion LHDT+ (3)
  - Sylwadau neu ymddygiad rhywiol amhriodol a/neu annerbyniol (2)
  - Sylwadau amhriodol a/neu annerbyniol am ymddangosiad corfforol e.e. ifanc, rhy fach, lefel cryfder ymddangosiadol (2)
  - Sylwadau amhriodol a/neu annerbyniol yn ymwneud ag ethnigrwydd e.e sylwadau hiliol (1)
  - Sylwadau neu ymddygiad amhriodol a/neu annerbyniol yn ymwneud â chrefydd e.e. gwrth-semitig neu nid y math o glaf y mae'r practis yn ei weld. (2)
10. Cyfeiriwyd at gydweithwyr mewn perthynas â sylwadau ac ymddygiad digroeso wrth ymarfer o ran dwy nodwedd warchoddedig: beichiogrwydd ac anabledd. Roedd profiadau yn tueddu i ymwneud â chydweithwyr yn darparu'r wybodaeth bersonol hon i gleifion heb ganiatâd na gwybodaeth ymlaen llaw.
11. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr (95% neu 20 osteopath) a oedd wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol fel osteopath neu fyfyrwr ar sail un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig) wedi nodi enghreifftiau. Yn gyffredinol, roeddent yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol (gweler Tabl 3).

**Tabl 3: Profiadau o wahaniaethu**

<b>Nodweddion Gwarchoddedig</b>	<b>Enghreifftiau dangosol o wahaniaethu</b>
Hunaniaeth rhyw a rhywedd (5)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canfyddiad gan gleifion bod dynion yn darparu triniaethau cryfach</li> <li>• Hysbysebion swyddi ar-lein ar gyfer menywod yn unig sy'n dadlau mai dyma yw dymuniad y cleifion</li> </ul>
Anabledd (5)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw penaethiaid y practis wedi gwneud addasiadau rhesymol</li> <li>• Mae addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried yn driniaeth arbennig yn hytrach nag yn angenrheidrwydd</li> <li>• Datgelu gwybodaeth i gleifion am anabledd ymarferydd</li> </ul>
Cyfeiriadedd rhywiol (3)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwrywod yn gwrthod ymarfer gydag ymarferydd cyfunrhywiol/hoyw</li> <li>• Credu bod person wedi methu arholiad oherwydd rhywioldeb</li> </ul>
Ethnigrwydd a/neu Grefydd (3)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Claf yn gwrthod credu bod ymarferydd yn osteopath oherwydd ei hil</li> <li>• Sylwadau am ddillad crefyddol</li> </ul>
Beichiogrwydd a mamolaeth (2)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o incwm ac oriau ar ôl dychwelyd i ymarfer</li> <li>• Datgelu gwybodaeth i gleifion bod ymarferydd yn feichiog</li> </ul>
Oedran (2)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhy ifanc i fod yn osteopath</li> </ul>
Arall (3)	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gormod i'w rhestru</li> <li>○ Strwythur dosbarth osteopathi</li> <li>○ Yn rhy fach i fod yn osteopath, yn rhy ifanc a diffyg cryfder i roi triniaeth gref</li> </ul>

12. Roedd rhai o'r ymatebwyr (75% neu 15 osteopath) yn gwybod am gydweithwyr a oedd wedi profi gwahaniaethu, ac wedi rhoi enghreifftiau i ni. Yn gyffredinol, roeddent yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol (gweler Tabl 4).

**Tabl 4: Profiadau cydweithwyr o wahaniaethu**

<b>Nodweddion Gwarchoddedig</b>	<b>Enghreifftiau dangosol o wahaniaethu</b>
Ethnigrwydd (yn cynnwys cenedligrwydd a chrefydd hefyd) (9)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagfarnau yn ymwneud ag ethnigrwydd sy'n arwain at fethu â chael cyfleoedd dyrchafiad neu dderbyn graddau llafar is</li> <li>• Cleifion yn methu mynychu apwyntiad oherwydd cyfenw</li> <li>• Sylwadau anffafriol gan gleifion i'r pennaeth a'r derbynnydd ar sail ethnigrwydd</li> </ul>
Hunaniaeth rhyw a rhywedd (4)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cleifion a thiwtoriaid yn amau sgiliau ymarferol menywod</li> <li>• Cleifion yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cael eu trin gan ymarferydd benywaidd</li> </ul>
Crefydd (3)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau amhriodol am ddillad sy'n gysylltiedig â ffydd grefyddol</li> <li>• Gwneud rhagdybiaethau yn hytrach na gofyn cwestiynau</li> </ul>
Anabledd (2)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Methu â darparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ag anableddau</li> <li>• Ysgolion osteopathig yn methu â pharchu anableddau</li> </ul>
Cyfeiriadedd rhywiol (2)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y claf yn gofyn i'r osteopath adael yr ystafell driniaeth oherwydd ei rywioldeb</li> </ul>
Arall (3)	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Heriau absenoldeb mamolaeth</li> </ul>

## **Adran 2 yr arolwg: Gwybodaeth amdanoch chi**

13. Mae ymatebion i'r adran 'Gwybodaeth amdanoch chi' i'w gweld yn Atodiad B. Yn y cwestiynau hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw un o'r naw nodwedd warchoddedig yn berthnasol iddynt, ac am natur eu patrwm gweithio.
14. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn dangos bod yr arolwg yn gymharol gynrychiadol. Trwy'r arolwg peilot EDI, rydym wedi gallu casglu mwy o safbwyntiau gan osteopathiaid â nodweddion gwarchoddedig lleiafrifol o gymharu â'n gwaith ymgysylltu/ymchwil yn y gorffennol, yn enwedig mewn perthynas ag anableddau, ethnigrwydd a hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, roedd cynrychiolaeth osteopathiaid gwrywaidd ac anneuaid, ac osteopathiaid a oedd yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, ychydig yn llai na'r hyn a geir yn nata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler Tabl 5).

**Tabl 5: Cynrychioldeb yr arolwg peilot EDI o'i gymharu â data cyffredinol ar gyfer y proffesiwn a'r boblogaeth**

<b>Nodwedd</b>	<b>Pa mor gynrychiadol oedd ein harolwg peilot?</b>	<b>Arolwg Peilot EDI (2022)</b>	<b>KPMG (2011)<sup>8</sup></b>	<b>ONS<sup>9</sup>/ Ffynonellau data poblogaeth eraill y DU (2016-2020)</b>	<b>Cyfrifiad 2021</b>
Rhyw a hunaniaeth rhywedd	Ychydig o ddiffyg cynrychiolaeth ar gyfer Gwrywod ac Anneuaidd	53% - Menywod 42% - Dynion 5% - Mae'n well gen i beidio â dweud 0% - Anneuaidd 0% - Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio A yw eich hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd i chi adeg eich geni? Ydy - 93% Nac ydy - 2% Ddim wedi ateb - 5.5%	48% - Menywod 52% - Dynion	51% - Menywod 49% - Dynion	51% - Menywod 49% - Dynion A yw eich hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd i chi adeg eich geni? Ydy 93.5% Nac ydy 0.5% Ddim wedi ateb 6%
Oedran	Yn gynrychiadol yn gyffredinol o'r boblogaeth o dan 50, ond gormod o gynrychiolaeth	42% o dan 50 oed 58% dros 50 oed	76% o dan 50 oed 23% dros 50 oed	Mae'r canrannau hyn yn seiliedig ar oedran	21% 1-17 oed 41% o dan 50 oed (18-49 oed)

<sup>8</sup> KPMG (2011) How do osteopaths practise?

<sup>9</sup> Noder bod data Cyfrifiad 2021 ar ddemograffeg cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei ryddhau ar adegau gwahanol. Cyhoeddwyd data ar nodweddion aelwydydd yn ystod Haf 2022, ac roedd yn cynnwys data ar ryw, oedran a phriodas neu bartneriaeth sifil. Mae Tabl 5 yn cynnwys dyddiadau rhyddhau arfaethedig ONS ar gyfer y nodweddion gwarchoddedig eraill.

<b>Nodwedd</b>	<b>Pa mor gynrychiadol oedd ein harolwg peilot?</b>	<b>Arolwg Peilot EDI (2022)</b>	<b>KPMG (2011)<sup>8</sup></b>	<b>ONS<sup>9</sup>/ Ffynonellau data poblogaeth eraill y DU (2016-2020)</b>	<b>Cyfrifiad 2021</b>
	o'r grŵp oedran dros 50 oed			Poblogaeth y DU (18+): 44% o dan 50 oed 35% dros 50 oed	38% 50 oed a throsodd (50-100 oed)
Anabledd	Mwy o gynrychiolaeth o rai ag anableddau	16%	3%	19% o'r boblogaeth oedran gweithio	18%
Ethnigrwydd a hil	Mwy o gynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd Heb fod yn Wyn/Gwyn Prydeinig	80% - Gwyn neu Wyn Prydeinig 9% - Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig 2% - Du neu Ddu Prydeinig 2% - Cefndir Ethnig Cymysg 2% - Grŵp Ethnig Arall 6% - Mae'n well gen i beidio â dweud	82% - Gwyn 5% - Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig 1% - Du neu Ddu Prydeinig 1% - Cefndir Ethnig Cymysg 1% - Grŵp Ethnig Arall 8% - Mae'n well gen i beidio â dweud	86% - Gwyn neu Wyn Prydeinig 8% - Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig 3% - Du neu Ddu Prydeinig 2% - Cefndir Ethnig Cymysg 1% - Grŵp Ethnig Arall <sup>10</sup>	82% - Gwyn, Gwyn Prydeinig neu Wyn Cymreig 9% - Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig 4% - Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd, neu Affricanaidd 3% - Grŵp Cymysg neu Aml-ethnig 2% - Grŵp Ethnig Arall
Crefydd	Mwy o gynrychiolaeth gan bobl nad ydynt yn Gristnogion neu bobl nad oes ganddynt	28% - Cristion 18.5% - Anffyddiwr 39% - Crefydd neu	50.5% - Cristion 41% - Dim crefydd 9% - Crefydd neu gred nad	41% - Cristion 53% - Dim crefydd <sup>13</sup> 6% - Crefydd neu gred nad	46% - Cristion 37% - Dim crefydd 11% - Crefydd neu gred nad

<sup>10</sup>Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 o'r boblogaeth oedran gweithio

<sup>13</sup>British Social Attitudes (2016)

<b>Nodwedd</b>	<b>Pa mor gynrychiadol oedd ein harolwg peilot?</b>	<b>Arolwg Peilot EDI (2022)</b>	<b>KPMG (2011)<sup>8</sup></b>	<b>ONS<sup>9</sup>/ Ffynonellau data poblogaeth eraill y DU (2016-2020)</b>	<b>Cyfrifiad 2021</b>
	gredoau crefyddol/ Anffyddwyr	gred nad yw'n Gristnogaeth h/ Anffyddiwr neu ddim credoau crefyddol <sup>11</sup>  17% - Mae'n well gen i beidio â dweud	yw'n Gristnogaeth/ Anffyddiwr neu ddim credoau crefyddol <sup>12</sup>  10% - Mae'n well gen i beidio â dweud	yw'n Gristnogaeth/ Anffyddiwr <sup>14</sup>	yw'n Gristnogaeth neu Dim crefydd <sup>15</sup>  6% - Heb ateb
Cyfeiriadedd rhywiol	Mwy o gynrychiolaeth o fathau amrywiol o gyfeiriadedd rhywiol	78% - Heterorywiol/ Syth  4% - Deurywiol  11% - Hoyw/Lesbiaidd  2% - Panrywiol  5.5% - Mae'n well gen i beidio â dweud	86% - Heterorywiol/ Syth  0.5% - Deurywiol  3% - Cyfunrhywiol  0.5% - arall  10% - Mae'n well gen i beidio â dweud	94% - Heterorywiol/ Syth  1% - Deurywiol  2% - Hoyw/Lesbiaidd  0.7% - Arall  3% - Ddim yn gwybod neu'n gwrthod dweud	89% - Heterorywiol/ Syth  1% - Deurywiol  1.5% - Hoyw/Lesbiaidd  0.3% - Arall  7% - Heb ateb
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Gormod o gynrychiolaeth o'r rhai sy'n byw mewn cwpl <sup>16</sup>	81.5% yn byw mewn cwpl	63% yn byw mewn cwpl <sup>17</sup>	61% yn byw mewn cwpl	45% yn briod neu mewn partneriaeth sifil

<sup>11</sup>Mae hyn yn cynnwys y credoau crefyddol canlynol: Bwdhydd (2%), Hindw (2%), Dyneiddiaeth (6%), Mwslim (4%), Pagan (2%), Sikh (4%), Ysbrydol (13%) ac unrhyw grefydd neu gred arall (6%)

<sup>12</sup> Mae hyn yn cynnwys y credoau crefyddol canlynol: Bwdhydd (1%), Hindw (2%), Iddew (1%), Mwslim (2%), unrhyw grefydd neu gred arall (3%)

<sup>14</sup>British Social Attitudes (2016)

<sup>15</sup>Mae hyn yn cynnwys y credoau crefyddol canlynol: Bwdhydd (0.5%), Hindw (1.7%), Iddew (0.5%), Mwslim (6.5%), Sikh (0.9%), Arall (0.6%)

<sup>16</sup>Mae byw mewn cwpl yn cyfeirio at briodas, partneriaeth sifil neu gyd-fyw

<sup>17</sup>Mae KPMG (2011) yn cyfeirio at fyw mewn cwpl fel pâr priod neu bartneriaeth sifil

Nodwedd	Pa mor gynrychiadol oedd ein harolwg peilot?	Arolwg Peilot EDI (2022)	KPMG (2011) <sup>8</sup>	ONS <sup>9</sup> / Ffynonellau data poblogaeth eraill y DU (2016-2020)	Cyfrifiad 2021
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Diffyg cynrychiolaeth ddigonol o'r rhai sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, gan fod rhaid i ddata'r boblogaeth fod yn uwch na 2% <sup>18</sup>	2%	Heb ei gofnodi	Dim ystadegyn addas i'w gynnwys yma <sup>19</sup>	Ddim yn berthnasol - Mae'r Arolwg o'r Llafurlu, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Defnydd Amser yn cynnwys y thema hon, ond nid ydynt yn cofnodi'n uniongyrchol nifer y rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth, er enghraifft.

### Adran 3 yr arolwg: Safbwyntiau ar ddata y gellir ei briodoli

15. Diben yr adran hon oedd casglu gwybodaeth bersonol, fel enw neu rif cofrestru person, er mwyn ein helpu i ddeall yn well effaith bosibl ein gweithdrefnau rheoleiddio ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig.
16. Roedd 58% o'r ymatebwyr (32 osteopath) yn barod i gynnwys eu henw a/neu eu rhif cofrestru yn yr wybodaeth ddemograffig a ddarparwyd ganddynt, ac roedd 42% (neu 23 osteopath) yn amharod i wneud hynny.
17. Rhoddodd 18/23 (neu 78%) o'r rhai nad oeddent yn barod i gynnwys eu henw a/neu eu rhif cofrestru yn yr wybodaeth ddemograffig y rhesymau canlynol am beidio â theimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny (y mwyaf cyffredin i'r lleiaf cyffredin):
  - Yn anghytuno bod y data hwn yn cael ei gadw ar gyfer pawb (e.e. gwybodaeth sensitif/bersonol na ddylai'r Cyngor ei gwybod, preifatrwydd hunaniaeth, rhagfarn cadarnhau)
  - Nid yn ymddiried yn y Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath
  - Poeni am ddial os yw darparwyr addysg yn cael gafael ar yr wybodaeth

<sup>18</sup>Mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach ar ôl cyhoeddi data cydraddoldeb ac amrywiaeth Cyfrifiad 2021.

- Mater o ddewis, ac mae darparu dau opsiwn yn golygu y gallaf ddewis yr opsiwn hwn a bod yn fwy gonest
- Mae'n well gen i beidio â dweud pam nad ydw i'n teimlo'n gyfforddus am ddarparu'r wybodaeth hon.

18. Dangosodd hyn ddiffyg ymddiriedaeth ac ofn yn ymwneud â'r pwnc hwn ymysg y proffesiwn osteopathig, ac mae'n amlwg bod angen i ni roi blaenoriaeth i'r mater hwn wrth gyfathrebu ac ymgysylltu yn y dyfodol.

## **Adran 4 yr arolwg: Unrhyw sylwadau eraill a wnaed gan ymatebwyr**

19. Roedd rhan olaf yr arolwg peilot EDI yn caniatáu i ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill. Roedden nhw'n tueddu i ganolbwyntio ar dair thema:
- a. effaith yr arolwg peilot ar ein gwaith a'n sefydliad
  - b. cydnabod yr angen am newid
  - c. fformat ac iaith yr arolwg

**Tabl 6: Sylwadau eraill gan ymatebwyr ar yr arolwg peilot EDI**

<b>Sylwadau am effaith</b>	<b>Sylwadau ar yr angen am newid</b>	<b>Fformat ac iaith yr arolwg</b>
'Mae angen egluro pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i sut y bydd y Cyngor yn gweithredu.'	'Mae'n bryd i ni newid ein hagweddau a chynorthwyo pobl i wireddu eu potensial yn llawn.'	'Beth yw ystyr cydraddoldeb, amrywiaeth, tegwch - mae angen esbonio'r termau hyn.'
'Rwy'n edrych ymlaen at weld y gwaith yn dechrau.'	'Mae angen i bobl gael mwy o amser i gyflwyno cwyn yn y sefydliadau addysg.'	'Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys bocs testun rhydd er mwyn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud awgrymiadau ar newidiadau cadarnhaol/gwelliannau.'
'Pa mor dryloyw fyddwch chi ynglŷn â chanlyniadau'r adborth hwn?'	'Dylai fod llwybr cwyno ar gael trwy'r Cyngor os nad yw'r ysgolion yn dilyn y canllawiau ar anabledau yr ydych yn eu crynhoi yn un o'ch dogfennau.'	'Roedd angen cynnwys dewis "ddim yn gwybod" ar gyfer rhai o'r cwestiynau.'
'Byddwn yn gofyn i chi edrych ar y Cyngor. Faint o bobl sy'n gweithio yno sy'n rhannu'r un cefndir â	'Mae'r demograffig yn parhau i fod yn gyfyngedig oherwydd bod lleisiau fel fy un i yn cael	'Roedd yn anodd ateb y cwestiynau cyntaf gan fod amrywiant ar sail y cyd-destun.'

Sylwadau am effaith	Sylwadau ar yr angen am newid	Fformat ac iaith yr arolwg
mi? Faint o Osteopathiaid sy'n rhannu'r un cefndir â mi sydd â swyddi allweddol yn y Cyngor? Gofynnwch y cwestiynau hyn i chi eich hun.... Gair sy'n cael ei ddefnyddio gan y proffesiwn yw cynhwysiant, a dim byd mwy na hynny.'	eu camddeall a ddim yn cael eu croesawu bob tro.'	
		'Mae'r cwestiynau fan hyn yn rhy gyffredinol. E.e., a ddywedodd unrhyw un erioed rywbeth cas wrthych fel myfyriwr – wrth gwrs, mae pobl wastad yn dweud pethau. Ond dyw hynny ddim yn golygu bod bywyd fel myfyriwr yn wahaniaethol. Mae'r cwestiynau mor gyffredinol.'

## Argymhellion

20. Mae'r canfyddiadau o'n harolwg peilot EDI yn dangos bod angen i'n gwaith yn y maes hwn ganolbwyntio ar gefnogi cynhwysiant yn y pedair ffordd ganlynol:

- 1) **Casglu data EDI:** mae canfyddiadau'r arolwg peilot yn dangos nad yw lleisiau osteopathiaid â nodweddion gwarchoddedig lleiafrifol yn cael eu clywed bob amser. Felly, mae'n rhaid i ni barhau i geisio sicrhau ac ehangu cynhwysiant a lleisiau ystod amrywiol o osteopathiaid yn ein gwaith, er enghraifft trwy gasglu data fel rhan o'n prosesau cofrestru. Gall hyn ein helpu i ddeall amrywiaeth y proffesiwn ac, o ganlyniad, ein rôl wrth gefnogi cynhwysiant a thegwch. Ar adeg briodol, byddwn yn cynnal arolwg arall yn debyg i'r arolwg peilot hwn, er mwyn cynnig opsiynau y gellir eu priodoli a rhai na ellir eu priodoli wrth gyflwyno data EDI i'r rhai sydd wedi cofrestru, a mesur a yw profiadau o faterion amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch (gweler Cwestiynau 1-5 yr arolwg peilot), fel osteopath gweithredol neu hyfforddiant i fod yn newid osteopath yn newid dros amser.
- 2) **Trwy ein gwaith gyda darparwyr addysg osteopathig er mwyn sicrhau addysg o ansawdd uchel i fyfyrwyr:** cryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a darpariaethau codi llais mewn safonau a chanllawiau addysgol, a dechrau cyfres o drafodaethau ar y cyd â darparwyr addysg osteopathig, pobl ag anableddau a rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i rannu'r hyn a ddysgir yn barhaus a hwyluso addasiadau rhesymol. Hefyd,



rhaid i ni fonitro'r gwaith o gyflwyno'r fersiwn diweddaraf o'r Deilliannau i Raddedigion a'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gofynion yn ymwneud â chynhwysiant, amrywiaeth a chydaddoldeb, a chodi llais.

- 3) **Sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r proffesiwn osteopathig yn agored ac yn gynhwysol:** mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'n rhan o Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor Osteopathig Cyffredinol<sup>20</sup>. Parhau i hyrwyddo cynhwysiant yn y proffesiwn osteopathig drwy ddathlu digwyddiadau diwylliannol a chrefyddol blynyddol amrywiol ar ein sianeli, cynnwys mwy o amrywiaeth yn ein cyfathrebu a sicrhau ein bod yn parhau i ofyn am gyngor ac adborth arbenigol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol yn ein prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu, recriwtio a gweithgareddau eraill. Hefyd, rhaid i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion EDI i'r proffesiwn trwy rannu canfyddiadau, camau gweithredu ac effaith ein gwaith lle bo hynny'n berthnasol.
- 4) **Darparu adnoddau ychwanegol yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth i gefnogi DPP:** rydym yn gobeithio dechrau'r gwaith hwn drwy goladu a rhannu adnoddau ar-lein gan reoleiddwyr eraill, megis adnoddau gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn ymwneud â phynciau fel sut i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithle, gofal iechyd pobl drawsryweddol a chamymddwyn rhywiol. Rydym yn ceisio estyn allan at grwpiau buddiant allanol fel darparwyr DPP er mwyn eu hannog i ymgorffori cynhwysiant, amrywiaeth a chydaddoldeb yn eu cyrsiau hyfforddi presennol neu ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant EDI pwrpasol, er mwyn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynhwysiant, amrywiaeth a chydaddoldeb i gleifion a chydweithwyr.

---

<sup>20</sup>Mae rhagor o fanylion am y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gael yma: [osteopathy.org.uk/comms-strategy](http://osteopathy.org.uk/comms-strategy)

## **Atodiad A: Canfyddiadau grwpiau ffocws a sut y defnyddiwyd yr adborth hwn i ddatblygu'r arolwg Peilot EDI**

### **Canfyddiadau cychwynnol y grwpiau ffocws**

21. Ar 27 Ionawr a 1 Chwefror 2022, fe aethom ati i brofi negeseuon, y daflen wybodaeth a'r arolwg peilot trwy ddefnyddio grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys aelodau o'r proffesiwn. Dyma ganfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws hyn:

### **Negeseuon cyffredinol (gan gynnwys y daflen wybodaeth)**

22. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen i ni wneud y canlynol:

- nodi'n glir na fydd unrhyw effaith ar statws proffesiynol osteopathiaid yn sgil dewis cymryd rhan yn yr arolwg ai peidio
- pwysleisio'r ffaith fod yna awydd/dymuniad/bwriad i newid, er mwyn sicrhau nad yw'r ymarferiad hwn yn cael ei weld fel ymarferiad ticio bocsys
- nodi pa newidiadau y bydd y Cyngor yn eu cyflwyno o ganlyniad i gasglu'r data hwn
- cyfleu gyda mwy o bwyslais y bydd y data'n cael ei ddefnyddio er budd y proffesiwn neu i addysgu'r proffesiwn
- nodi'n glir sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r data - mae hwn yn ddata sensitif a bydd angen rhoi sicrwydd i'r proffesiwn y bydd y data hwn yn cael ei drin gyda gofal
- cynnwys testun a fydd yn annog osteopathiaid sydd wedi dioddef gwahaniaethu i ymateb, a dangos iddynt fod hwn yn gyfle i rannu eu profiad er mwyn gwneud gwahaniaeth
- cyfeirio at y ffaith fod proffesiynau eraill wedi rhannu eu data EDI, felly os bydd osteopathiaid yn mabwysiadu'r un agwedd, byddant yn fwy cydnaws â gweithwyr ieched proffesiynol eraill
- nodi bod y Cyngor yn 'ddiolchgar o dderbyn eich gwybodaeth EDI'
- nodi pam mae gennym ddiddordeb yn yr wybodaeth hon a defnyddio hyn fel cyfle i chwalu mythau. Er enghraifft, roedd y materion a godwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:
  - Bydd datganiadau cofrestru yn arwain at ymchwiliad i osteopath
  - Mae'n annhebygol y bydd myfyrwyr yn datgelu anableddau oherwydd canfyddiadau negyddol ar ran y Cyngor ac ofnau y byddant yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr oherwydd y gofynion yn ymwneud ag 'iechyd da' ar gyfer ymgeiswyr newydd i'r Gofrestr.

### **Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas â'r proffesiwn osteopathig**

23. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod angen gofyn y cwestiynau uniongyrchol hyn, a bod cynnwys cwestiynau o'r fath yn yr arolwg peilot yn dangos bod y Cyngor yn cymryd EDI o ddifrif.

24. Cwestiwn 1: Ar raddfa o 1 i 5, lle mai 1 yn golygu Anghytuno'n gryf a 5 yn golygu Cytuno'n gryf, sut fydddech chi'n graddio'r datganiadau canlynol? Roedd hyn yn cynnwys defnyddio 5 datganiad.

- Ystyriwyd bod datganiadau  $2^{21}$  a  $5^{22}$  yn achosi problemau o safbwynt mesuriadau, gan fod cefndir a hunaniaeth yn nodweddion ar wahân.
- Roedd rhai o'r farn bod rhai o'r datganiadau yn gofyn sawl cwestiwn ac y gallai hyn ei gwneud hi'n anodd eu hateb.

25. Cwestiwn 2: Ydych chi neu gydweithiwr erioed wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth ymarfer fel osteopath neu wrth hyfforddi i fod yn osteopath a oedd, yn eich barn chi, yn sarhaus, yn achosi embaras, neu'n anffafriol (e.e. jôcs amhriodol, sylwadau, difriio, sibrydion, clecs niweidiol, mathau o ymddygiad ynysu)?

- Awgrymwyd bod pawb yn debygol o ateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn oherwydd ar un adeg neu'i gilydd mae'n debygol y bydd unigolyn/cydweithiwr wedi profi sylwadau/ymddygiad digroeso.
- Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd person sydd â nodweddion gwarchoddedig ac sydd wedi profi'r math hwn o ymddygiad yn gyson hyd yn oed yn ateb y cwestiwn oherwydd teimlad o rwystredigaeth bod cwestiwn ag ateb mor amlwg yn cael ei ofyn yn y lle cyntaf.
- Awgrymwyd y dylid rhannu'r cwestiwn ar sail cyfnodau 'hyfforddi' ac 'ymarfer'.
- Nid oedd y cyfranogwyr yn siŵr os yw'r gair 'embaras' yn gweddu i natur y cwestiwn hwn.
- Awgrymwyd y dylid cyfeirio at gyfnod penodol yn y cwestiwn - 'Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi profi...'
- Awgrymwyd bod angen nodi'n glir bod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn oherwydd y bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau newid cadarnhaol.

26. Cwestiwn 3: Ydych chi neu gydweithiwr erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig yn seiliedig ar un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

- Awgrymwyd y gellid rhannu'r cwestiwn hwn a gofyn 'ydych chi wedi profi' ac yna gofyn cwestiwn ar wahân 'a oes cydweithiwr wedi profi.'

---

<sup>21</sup> Rwy'n teimlo bod fy nghefndir a'm hunaniaeth unigryw (h.y. fy ngwahaniaethau) yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn osteopathig

<sup>22</sup> Mae pobl o bob cefndir ac sydd ag amrywiaeth o hunaniaethau yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi.

## Cwestiynau nodweddion gwarchoddedig

27. Teimlai'r cyfranogwyr fod angen cynnwys y canlynol wrth gyfeirio at y naw nodwedd warchoddedig:

- **Crefydd** - Ychwanegu'r opsiwn 'Anffyddiwr' yn hytrach na dim ond 'Dim crefydd neu gredo', ac ychwanegu 'Dyneiddiaeth/Dyneiddiwr' fel opsiwn
- **Statws Priodasol/Partneriaeth Sifil** – Ychwanegu 'cyd-fyw' fel opsiwn
- **Rhyw a hunaniaeth rhywedd** – dylid cynnwys rhagenwau a neo-ragenwau
- **Cyfeiriadedd rhywiol** – Darparu blwch testun ar gyfer pobl sy'n dewis yr opsiwn 'mae'n well gennyf hunan-ddisgrifio'
- **Patrwm gweithio presennol** – Ychwanegu 'gofalwr di-dâl' fel opsiwn, hefyd fe fydd yna osteopathiaid sy'n gweithio'n llawn amser fel addysgwyr, ond nad ydynt yn ymarfer fel osteopathiaid, felly mae angen gwahaniaethu h.y. newid y cwestiwn hwn i fod yn gwestiwn aml-ateb

## Data y gellir ei briodoli ac na ellir ei briodoli

28. Mynegwyd y canlynol gan gyfranogwyr:

- mae osteopathiaid yn debygol o deimlo'n anghyfforddus yn datgelu eu data oherwydd
  - gallai'r Cyngor ddefnyddio'r data hwn ar gyfer camau gweithredu Addasrwydd i Ymarfer yn y dyfodol
  - gellid ei ystyried yn ddull chwilota - 'cyfle i'r Cyngor gasglu data'
- nid yw'r wybodaeth/testun cyd-destunol yn ysbrydoli yn yr adran hon ar hyn o bryd
- mae angen i ni nodi yn fwy eglur pam rydym yn gofyn am ddata y gellir ei briodoli – rhowch enghreifftiau o sut fydd y data yn cael ei ddefnyddio
- cynnwys datganiad am yr hyn y byddwn yn ei wneud gyda'r data a phwy sydd â mynediad at y data
- egluro ein rôl fel rheoleiddiwr yn y broses hon – yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud
- mae angen i ni gyfleu sut y byddwn yn defnyddio'r data hwn i wella addysg osteopathig
- mae angen i ni egluro pam rydym yn gofyn am y data hwn i nodi patrymau a defnyddio enghreifftiau e.e. cynllun DPP sy'n rhagfarnu yn erbyn pobl â nodweddion penodol.

## Sylwadau cyffredinol gan y grwpiau ffocws

29. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen darparu'r wybodaeth lawn wrth gyfathrebu – byddwch yn onest am unrhyw ansicrwydd, byddai hyn yn adlewyrchu gwerthoedd Safonau Ymarfer Osteopathig a gwerthoedd ymarferwyr

- Roedd cyfranogwyr yn croesawu dathlu amrywiaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf
- Argymhellir bod angen naratif parhaus am EDI yn ein prosesau cyfathrebu – diweddariadau rheolaidd ar faterion sy'n gysylltiedig ag EDI fel rhan o holl waith a phrosiectau'r Cyngor
- Mae'r Cyngor yn codi ofn ar fyfyrwyr. Er enghraifft, mae myfyrwyr yn meddwl y bydd y Cyngor yn edrych ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol ac yn tynnu myfyrwyr oddi ar y gofrestr os yw'n gweld rhywbeth nad yw'n ei hoffi.
- Mae myfyrwyr sy'n profi gwahaniaethu mewn Sefydliadau Addysg Osteopathig yn annhebygol o gwyno nes eu bod wedi cwblhau eu hastudiaethau oherwydd eu bod yn poeni am ragfarn
- Mae'r Cyngor yn cael ei ystyried yn haearnidd/anhyblyg/cosbol
- Mae'r proffesiwn yn parhau i gofio am anghydfodau hanesyddol rhwng y Cyngor ac osteopathiaid - mae'r loes a achoswyd i unigolion gan y broses Addasrwydd i Ymarfer mewn degawdau blaenorol yn parhau hyd heddiw

30. Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2022, fe wnaethom ystyried yr holl adborth hwn gan integreiddio enghreifftiau, deall y cwestiynau pam ac ailwampio testun, adrannau yr arolwg a'r deunydd negeseuon ar sail adborth gan y grwpiau ffocws.

### **Grwpiau ffocws ychwanegol**

31. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ansoddol ar-lein ychwanegol (dulliau o gofnodi profiadau a safbwyntiau heb ddefnyddio arolwg) ar 28 Mawrth a 26 Ebrill 2022.

32. Roedd canfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws hyn yn cynnwys y canlynol:

### **Negeseuon cyffredinol (gan gynnwys y daflen wybodaeth)**

33. Dyma sylwadau'r cyfranogwyr:

- Nododd rhai bod yr esboniad ar ddechrau'r arolwg a'r blog yn ddefnyddiol.
- Nododd rhai ei bod yn ddefnyddiol bod y daflen wybodaeth yn datgan na fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer.
- Dywedodd rhai ei bod yn ddefnyddiol bod manylion am sut y byddai'r data hwn yn cael ei ddefnyddio wedi'u darparu yn yr arolwg ac mewn gwybodaeth allweddol amdano a gafodd ei chyfathrebu.
- Roedd eraill yn teimlo y byddai'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn debygol o deimlo'n bryderus am sut y byddai'r Cyngor yn defnyddio'r data - yn bennaf oherwydd nad yw'r osteopath cyffredin yn ymwneud â gwaith cynllunio'r gweithlu.
- Roedd angen i'r Cyngor esbonio'r gwahaniaeth y mae'n gobeithio ei wneud yn fwy manwl a chlr. Er enghraifft, teimlwyd nad yw'r datganiad yn ymwneud â gwneud newidiadau i brosesau presennol er budd y proffesiwn yn golygu fawr ddim i'r rhan fwyaf o bobl yn y proffesiwn. Roedd angen egluro'n fwy clir ystyr budd cyhoeddus, beth yn union fydd yn newid o

ganlyniad, beth fydd y manteision, a beth fydd y canlyniadau. Mewn ymateb i'r pwynt hwn, eglurwyd ei bod yn anodd gwybod beth fydd yn newid ar hyn o bryd, gan fod angen i ni ddysgu mwy am y proffesiwn yn gyntaf er mwyn gwybod beth sydd angen ei newid, a dyna pam mae rhan gyntaf yr arolwg peilot yn archwilio profiadau ym meysydd addysg ac ymarfer.

### **Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas ag ymarfer osteopathig**

34. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol am y datganiad yng Nghwestiwn 1: Mae pobl â phob un o'r nodwedd gwarchoddedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi (e.e. y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol). Roedd rhai yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig cynnwys a rhannu profiadau yn ymwneud â'r datganiad hwn. Nid oedd eraill yn meddwl bod y datganiad yn berthnasol y tu allan i ddarparwyr addysg osteopathig neu'r GIG h.y. osteopath sy'n gweithio mewn practis bach.
35. Nodwyd ei bod yn bosibl nad yw osteopathiaid yn meddwl rhyw lawer am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch, nac yn meddwl pam mae data EDI yn bwysig. Efallai bod angen darparu mwy o addysg iddynt ar faterion cydraddoldeb, ac esbonio ystyr y termau hyn, gan nad yw materion o'r fath yn rhai y daw osteopathiaid i gysylltiad â nhw ryw lawer mewn practisau bach.
36. Hefyd, nodwyd bod darparwyr DPP yn llwyddo i gysylltu cyrsiau â'r Safonau Ymarfer Osteopathig, ond efallai nad ydynt yn ystyried elfennau EDI.
37. Mae cwestiynau 4<sup>23</sup> a 5<sup>24</sup> yn defnyddio'r term 'anffafriol' (adverse yn y fersiwn Saesneg), ac nid oedd un cyfranogwr yn deall y term hwn yn llawn.
38. Cwestiwn 4: Ydych chi erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)? Dywedodd rhai cyfranogwyr y gallai rhai osteopathiaid nodi yn yr arolwg eu bod wedi dioddef gwahaniaethu amser maith yn ôl pan oeddent yn fyfyrwyr, a'i bod yn bosibl eu bod hyd yn oed yn addysgu yn y sefydliad addysg osteopathig erbyn hyn, felly rhaid cwestiynu sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon yn awr. Yma buom yn trafod y ffaith nad oes llawer o wybodaeth ar gael am broffil osteopathi,

---

<sup>23</sup> Ydych chi erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

<sup>24</sup> A oes cydweithiwr erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar ei gefndir neu ei hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

ac y byddai dysgu mwy am brofiadau ym meysydd addysg ac ymarfer yn helpu i wybod pa agweddau sydd angen canolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

### **Nodweddion gwarchoddedig**

39. Roedd yr hyn sy'n digwydd os yw rhywun yn datgelu anabledd yn bryder ymysg rhai cyfranogwyr, ac roeddent yn poeni am gael eu labelu yn achosion Addasrwydd i Ymarfer, a chael eu tynnu oddi ar y Gofrestr o ganlyniad.
40. Nodwyd y gellid cryfhau gofynion anabledd rhagweladwy mewn rhai sefydliadau addysg osteopathig.
41. Hefyd, nodwyd yma y byddai'n fanteisiol gallu safoni prosesau monitro nodweddion gwarchoddedig EDI pob rheoleiddiwr iechyd er mwyn helpu i wneud cymariaethau.

### **Data y gellir ei briodoli ac na ellir ei briodoli**

42. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai cynnig lle diogel fel y grŵp ffocws, a oedd yn cynnwys data y gellir ei briodoli, agor trafodaethau a nodi materion o bryder rhwng y rhai sydd ar y gofrestr a'r rheoleiddiwr.
43. Pe bai ymatebwyr yn darparu eu henw/rhif cofrestru, roedd rhai yn pryderu y byddai eu nodweddion gwarchoddedig yn cael eu harddangos ar Gofrestr y Cyngor ac y byddai cleifion yn gallu gweld yr wybodaeth hon. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr na fyddai hyn yn digwydd, a bod y daflen wybodaeth yn nodi hyn.
44. Ystyriwyd ei bod yn ddefnyddiol bod dewis yn cael ei gynnig ynglŷn ag a yw ymatebwyr eisiau priodoli eu data ai peidio. Trwy gael y dewis o beidio â phriodoli data, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallent 'ddiogelu eu hunain' rhag y defnydd posibl o'r wybodaeth hon yn awr ac yn y dyfodol.
45. Cynigiwyd rhai awgrymiadau yn ymwneud â meddalau'r testun rhagarweiniol o dan yr adran data y gellir ei briodoli, gan gynnwys:
  - Nid oes rhaid i chi roi eich enw/rhif cofrestru i ni, ond byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n gwneud hynny, ac yna esbonio pam.
  - Fel osteopath gallwch wneud gwahaniaeth os ydych chi'n darparu'r manylion hyn oherwydd...
  - Cynnwys blwyddyn gymhwyso yn ogystal ag enw/rhif cofrestru, felly os nad yw ymatebwyr yn rhoi rhif cofrestru neu enw, bydd y flwyddyn gymhwyso yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am ba mor ddiweddar oedd y profiad.
  - Hefyd, atgyfeirio i gymorth sefydliadol wedyn.
46. Roedd y sylwadau cyffredinol gan y cyfranogwyr yn cynnwys:
  - Roedd consensws bod angen gwneud y gwaith hwn ar EDI a bod y grwpiau ffocws hyn yn ddefnyddiol fel sesiynau agoriadol.
  - Roedd canfyddiad cyffredinol bod angen i'r maes osteopathi gau'r bwllch ar broffesiynau gofal iechyd eraill o safbwynt EDI, er mwyn cadw i fyny â newidiadau mewn cymdeithas.

- Roedd rhywfaint o awydd i weld pecyn o adnoddau DPP yn cael ei ddatblygu ar gyfer y wefan yn ymwneud â chyfle cyfartal a gwerth gwahaniaeth o safbwynt canfyddiad osteopathiaid ohonynt eu hunain fel ymarferwyr a/neu sut maen nhw'n cysylltu â chleifion sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol neu sut maen nhw'n gweithio gyda nhw.

47. Ddefnyddiwyd yr adborth a gawsom i lywio blog sydd wedi'i gyhoeddi. Diolch i'r grwpiau ffocws hyn, mae gennym ddealltwriaeth well o'r galluogwyr a'r rhwystrau, ac rydym wedi ceisio adlewyrchu hyn yn y blog diweddaraf hefyd, er enghraifft, trwy egluro pa wahaniaeth rydym yn gobeithio ei wneud trwy gasglu set gyflawn o ddata monitro EDI. Cyhoeddwyd y blog hwn ar 13 Ebrill 2022 o dan y teitl: Sut mae osteopathiaid yn ymateb i'n harolwg peilot EDI hyd yn hyn. Gellir gweld y blog hwn yma: <https://www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/blogs/how-osteopaths-are-responding-to-our-edi-pilot-so-far/>

### **Canfyddiadau cychwynol y grwpiau ffocws**

48. Ar 27 Ionawr a 1 Chwefror 2022, fe aethom ati i brofi negeseuon, y daflen wybodaeth a'r arolwg peilot trwy ddefnyddio grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys aelodau o'r proffesiwn. Dyma ganfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws hyn:

### **Negeseuon cyffredinol (gan gynnwys y daflen wybodaeth)**

49. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen i ni wneud y canlynol:

- nodi'n glir na fydd unrhyw effaith ar statws proffesiynol osteopathiaid yn sgil dewis cymryd rhan yn yr arolwg ai peidio
- pwysleisio'r ffaith fod yna awydd/dymuniad/bwriad i newid, er mwyn sicrhau nad yw'r ymarferiad hwn yn cael ei weld fel ymarferiad ticio bocsys
- nodi pa newidiadau y bydd y Cyngor yn eu cyflwyno o ganlyniad i gasglu'r data hwn
- cyfleu gyda mwy o bwyslais y bydd y data'n cael ei ddefnyddio er budd y proffesiwn neu i addysgu'r proffesiwn
- nodi'n glir sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r data - mae hwn yn ddata sensitif a bydd angen rhoi sicrwydd i'r proffesiwn y bydd y data hwn yn cael ei drin gyda gofal
- cynnwys testun a fydd yn annog osteopathiaid sydd wedi dioddef gwahaniaethu i ymateb, a dangos iddynt fod hwn yn gyfle i rannu eu profiad er mwyn gwneud gwahaniaeth
- cyfeirio at y ffaith fod proffesiynau eraill wedi rhannu eu data EDI, felly os bydd osteopathiaid yn mabwysiadu'r un agwedd, byddant yn fwy cydnaws â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill
- nodi bod y Cyngor yn 'ddiolchgar o dderbyn eich gwybodaeth EDI'
- nodi pam mae gennym ddiddordeb yn yr wybodaeth hon a defnyddio hyn fel cyfle i chwalu mythau. Er enghraifft, roedd y materion a godwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:
  - Bydd datganiadau cofrestru yn arwain at ymchwiliad i osteopath



- Mae'n annhebygol y bydd myfyrwyr yn datgelu anableddau oherwydd canfyddiadau negyddol ar ran y Cyngor ac ofnau y byddant yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr oherwydd y gofynion yn ymwneud ag 'iechyd da' ar gyfer ymgeiswyr newydd i'r Gofrestr.

### **Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas â'r proffesiwn osteopathig**

50. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod angen gofyn y cwestiynau uniongyrchol hyn, a bod cynnwys cwestiynau o'r fath yn yr arolwg peilot yn dangos bod y Cyngor yn cymryd EDI o ddifrif.
51. Cwestiwn 1: Ar raddfa o 1 i 5, lle mai 1 yn golygu Anghytuno'n gryf a 5 yn golygu Cytuno'n gryf, sut fydddech chi'n graddio'r datganiadau canlynol? Roedd hyn yn cynnwys defnyddio 5 datganiad.
- Ystyriwyd bod datganiadau 2<sup>25</sup> a 5<sup>26</sup> yn achosi problemau o safbwynt mesuriadau, gan fod cefndir a hunaniaeth yn nodweddion ar wahân.
  - Roedd rhai o'r farn bod rhai o'r datganiadau yn gofyn sawl cwestiwn ac y gallai hyn ei gwneud hi'n anodd eu hateb.
52. Cwestiwn 2: Ydych chi neu gydweithiwr erioed wedi profi sylwadau neu ymddygiad digroeso wrth ymarfer fel osteopath neu wrth hyfforddi i fod yn osteopath a oedd, yn eich barn chi, yn sarhaus, yn achosi embaras, neu'n anffafriol (e.e. jôcs amhriodol, sylwadau, difriö, sibrydion, clecs niweidiol, mathau o ymddygiad ynysu)?
- Awgrymwyd bod pawb yn debygol o ateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn oherwydd ar un adeg neu'i gilydd mae'n debygol y bydd unigolyn/cydweithiwr wedi profi sylwadau/ymddygiad digroeso.
  - Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd person sydd â nodweddion gwarchoddedig ac sydd wedi profi'r math hwn o ymddygiad yn gyson hyd yn oed yn ateb y cwestiwn oherwydd teimlad o rwystredigaeth bod cwestiwn ag ateb mor amlwg yn cael ei ofyn yn y lle cyntaf.
  - Awgrymwyd y dylid rhannu'r cwestiwn ar sail cyfnodau 'hyfforddi' ac 'ymarfer'.
  - Nid oedd y cyfranogwyr yn siŵr os yw'r gair 'embaras' yn gweddu i natur y cwestiwn hwn.
  - Awgrymwyd y dylid cyfeirio at gyfnod penodol yn y cwestiwn - 'Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi profi...'
  - Awgrymwyd bod angen nodi'n glir bod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn oherwydd y bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau newid cadarnhaol.

<sup>25</sup> Rwy'n teimlo bod fy nghefnidir a'm hunaniaeth unigryw (h.y. fy ngwahaniaethau) yn cael eu gwerthfawrogi yn y proffesiwn osteopathig

<sup>26</sup> Mae pobl o bob cefndir ac sydd ag amrywiaeth o hunaniaethau yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi.

53. Cwestiwn 3: Ydych chi neu gydweithiwr erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig yn seiliedig ar un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

- Awgrymwyd y gellid rhannu'r cwestiwn hwn a gofyn 'ydych chi wedi profi' ac yna gofyn cwestiwn ar wahân 'a oes cydweithiwr wedi profi.'

### **Cwestiynau nodweddion gwarchoddedig**

54. Teimlai'r cyfranogwyr fod angen cynnwys y canlynol wrth gyfeirio at y naw nodwedd warchoddedig:

- **Crefydd** - Ychwanegu'r opsiwn 'Anffyddiwr' yn hytrach na dim ond 'Dim crefydd neu greddo', ac ychwanegu 'Dyneiddiaeth/Dyneiddiwr' fel opsiwn
- **Statws Priodasol/Partneriaeth Sifil** – Ychwanegu 'cyd-fyw' fel opsiwn
- **Rhyw a hunaniaeth rhywedd** – dylid cynnwys rhagenwau a neo-ragenwau
- **Cyfeiriadedd rhywiol** – Darparu blwch testun ar gyfer pobl sy'n dewis yr opsiwn 'mae'n well gennyf hunan-ddisgrifio'
- **Patrwm gweithio presennol** – Ychwanegu 'gofalwr di-dâl' fel opsiwn, hefyd fe fydd yna osteopathiaid sy'n gweithio'n llawn amser fel addysgwyr, ond nad ydynt yn ymarfer fel osteopathiaid, felly mae angen gwahaniaethu h.y. newid y cwestiwn hwn i fod yn gwestiwn aml-ateb

### **Data y gellir ei briodoli ac na ellir ei briodoli**

55. Mynegwyd y canlynol gan gyfranogwyr:

- mae osteopathiaid yn debygol o deimlo'n anghyfforddus yn datgelu eu data oherwydd
  - gallai'r Cyngor ddefnyddio'r data hwn ar gyfer camau gweithredu Addasrwydd i Ymarfer yn y dyfodol
  - gellid ei ystyried yn ddull chwilota - 'cyfle i'r Cyngor gasglu data'
- nid yw'r wybodaeth/testun cyd-destunol yn ysbrydoli yn yr adran hon ar hyn o bryd
- mae angen i ni nodi yn fwy eglur pam rydym yn gofyn am ddata y gellir ei briodoli – rhowch enghreifftiau o sut fydd y data yn cael ei ddefnyddio
- cynnwys datganiad am yr hyn y byddwn yn ei wneud gyda'r data a phwy sydd â mynediad at y data
- egluro ein rôl fel rheoleiddiwr yn y broses hon – yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud
- mae angen i ni gyfleu sut y byddwn yn defnyddio'r data hwn i wella addysg osteopathig

- mae angen i ni egluro pam rydym yn gofyn am y data hwn i nodi patrymau a defnyddio enghreifftiau e.e. cynllun DPP sy'n rhagfarnu yn erbyn pobl â nodweddion penodol.

### **Sylwadau cyffredinol gan y grwpiau ffocws**

56. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen darparu'r wybodaeth lawn wrth gyfathrebu – byddwch yn onest am unrhyw ansicrwydd, byddai hyn yn adlewyrchu gwerthoedd Safonau Ymarfer Osteopathig a gwerthoedd ymarferwyr
- Roedd cyfranogwyr yn croesawu dathlu amrywiaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf
- Argymhellir bod angen naratif parhaus am EDI yn ein prosesau cyfathrebu – diweddariadau rheolaidd ar faterion sy'n gysylltiedig ag EDI fel rhan o holl waith a phrosiectau'r Cyngor
- Mae'r Cyngor yn codi ofn ar fyfyrwyr. Er enghraifft, mae myfyrwyr yn meddwl y bydd y Cyngor yn edrych ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol ac yn tynnu myfyrwyr oddi ar y gofrestr os yw'n gweld rhywbeth nad yw'n ei hoffi.
- Mae myfyrwyr sy'n profi gwahaniaethu mewn Sefydliadau Addysg Osteopathig yn annhebygol o gwyno nes eu bod wedi cwblhau eu hastudiaethau oherwydd eu bod yn poeni am ragfarn
- Mae'r Cyngor yn cael ei ystyried yn haearnidd/anhyblyg/cosbol
- Mae'r proffesiwn yn parhau i gofio am anghydfodau hanesyddol rhwng y Cyngor ac osteopathiaid - mae'r loes a achoswyd i unigolion gan y broses Addasrwydd i Ymarfer mewn degawdau blaenorol yn parhau hyd heddiw

57. Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2022, fe wnaethom ystyried yr holl adborth hwn gan integreiddio enghreifftiau, deall y cwestiynau pam ac ailwampio testun, adrannau yr arolwg a'r deunydd negeseuon ar sail adborth gan y grwpiau ffocws.

### **Grwpiau ffocws ychwanegol**

58. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ansoddol ar-lein ychwanegol (dulliau o gofnodi profiadau a safbwyntiau heb ddefnyddio arolwg) ar 28 Mawrth a 26 Ebrill 2022.

59. Roedd canfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws hyn yn cynnwys y canlynol:

### **Negeseuon cyffredinol (gan gynnwys y daflen wybodaeth)**

60. Dyma sylwadau'r cyfranogwyr:

- Nododd rhai bod yr esboniad ar ddechrau'r arolwg a'r blog yn ddefnyddiol.
- Nododd rhai ei bod yn ddefnyddiol bod y daflen wybodaeth yn datgan na fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer.
- Dywedodd rhai ei bod yn ddefnyddiol bod manylion am sut y byddai'r data hwn yn cael ei ddefnyddio wedi'u darparu yn yr arolwg ac mewn gwybodaeth allweddol amdano a gafodd ei chyfathrebu.

- Roedd eraill yn teimlo y byddai'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn debygol o deimlo'n bryderus am sut y byddai'r Cyngor yn defnyddio'r data - yn bennaf oherwydd nad yw'r osteopath cyffredin yn ymwneud â gwaith cynllunio'r gweithlu.
- Roedd angen i'r Cyngor esbonio'r gwahaniaeth y mae'n gobeithio ei wneud yn fwy manwl a chlr. Er enghraifft, teimlwyd nad yw'r datganiad yn ymwneud â gwneud newidiadau i brosesau presennol er budd y proffesiwn yn golygu fawr ddim i'r rhan fwyaf o bobl yn y proffesiwn. Roedd angen egluro'n fwy clir ystyr budd cyhoeddus, beth yn union fydd yn newid o ganlyniad, beth fydd y manteision, a beth fydd y canlyniadau. Mewn ymateb i'r pwynt hwn, eglurwyd ei bod yn anodd gwybod beth fydd yn newid ar hyn o bryd, gan fod angen i ni ddysgu mwy am y proffesiwn yn gyntaf er mwyn gwybod beth sydd angen ei newid, a dyna pam mae rhan gyntaf yr arolwg peilot yn archwilio profiadau ym meysydd addysg ac ymarfer.

### **Meddwl am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch mewn perthynas ag ymarfer osteopathig**

61. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol am y datganiad yng Nghwestiwn 1: Mae pobl â phob un o'r nodwedd gwarchoddedig yn cael cyfleoedd teg i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes osteopathi (e.e. y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol). Roedd rhai yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig cynnwys a rhannu profiadau yn ymwneud â'r datganiad hwn. Nid oedd eraill yn meddwl bod y datganiad yn berthnasol y tu allan i ddarparwyr addysg osteopathig neu'r GIG h.y. osteopath sy'n gweithio mewn practis bach.
62. Nodwyd ei bod yn bosibl nad yw osteopathiaid yn meddwl rhyw lawer am amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch, nac yn meddwl pam mae data EDI yn bwysig. Efallai bod angen darparu mwy o addysg iddynt ar faterion cydraddoldeb, ac esbonio ystyr y termau hyn, gan nad yw materion o'r fath yn rhai y daw osteopathiaid i gysylltiad â nhw ryw lawer mewn practisau bach.
63. Hefyd, nodwyd bod darparwyr DPP yn llwyddo i gysylltu cyrsiau â'r Safonau Ymarfer Osteopathig, ond efallai nad ydynt yn ystyried elfennau EDI.
64. Mae cwestiynau 4<sup>27</sup> a 5<sup>28</sup> yn defnyddio'r term 'anffafriol' (adverse yn y fersiwn Saesneg), ac nid oedd un cyfranogwr yn deall y term hwn yn llawn.

---

<sup>27</sup> Ydych chi erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

<sup>28</sup> A oes cydweithiwr erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar ei gefndir neu ei hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)?

65. Cwestiwn 4: Ydych chi erioed wedi profi gwahaniaethu (h.y. triniaeth annheg, negyddol neu anffafriol) fel osteopath neu fyfyrwr osteopathig ar sail un neu fwy o agweddau ar eich cefndir neu'ch hunaniaeth (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall)? Dywedodd rhai cyfranogwyr y gallai rhai osteopathiaid nodi yn yr arolwg eu bod wedi dioddef gwahaniaethu amser maith yn ôl pan oeddent yn fyfyrwyr, a'i bod yn bosibl eu bod hyd yn oed yn addysgu yn y sefydliad addysg osteopathig erbyn hyn, felly rhaid cwestiynu sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon yn awr. Yma buom yn trafod y ffaith nad oes llawer o wybodaeth ar gael am broffil osteopathi, ac y byddai dysgu mwy am brofiadau ym meysydd addysg ac ymarfer yn helpu i wybod pa agweddau sydd angen canolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

### **Nodweddion gwarchoddedig**

66. Roedd yr hyn sy'n digwydd os yw rhywun yn datgelu anabledd yn bryder ymysg rhai cyfranogwyr, ac roeddent yn poeni am gael eu labelu yn achosion Addasrwydd i Ymarfer, a chael eu tynnu oddi ar y Gofrestr o ganlyniad.

67. Nodwyd y gellid cryfhau gofynion anabledd rhagweladwy mewn rhai sefydliadau addysg osteopathig.

68. Hefyd, nodwyd yma y byddai'n fanteisiol gallu safoni prosesau monitro nodweddion gwarchoddedig EDI pob rheoleiddiwr iechyd er mwyn helpu i wneud cymariaethau.

### **Data y gellir ei briodoli ac na ellir ei briodoli**

69. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai cynnig lle diogel fel y grŵp ffocws, a oedd yn cynnwys data y gellir ei briodoli, agor trafodaethau a nodi materion o bryder rhwng y rhai sydd ar y gofrestr a'r rheoleiddiwr.

70. Pe bai ymatebwyr yn darparu eu henw/rhif cofrestru, roedd rhai yn pryderu y byddai eu nodweddion gwarchoddedig yn cael eu harddangos ar Gofrestr y Cyngor ac y byddai cleifion yn gallu gweld yr wybodaeth hon. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr na fyddai hyn yn digwydd, a bod y daflen wybodaeth yn nodi hyn.

71. Ystyriwyd ei bod yn ddefnyddiol bod dewis yn cael ei gynnig ynglŷn ag a yw ymatebwyr eisiau priodoli eu data ai peidio. Trwy gael y dewis o beidio â phriodoli data, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallent 'ddiogelu eu hunain' rhag y defnydd posibl o'r wybodaeth hon yn awr ac yn y dyfodol.

72. Cynigiwyd rhai awgrymiadau yn ymwneud â meddalu'r testun rhagarweiniol o dan yr adran data y gellir ei briodoli, gan gynnwys:

- Nid oes rhaid i chi roi eich enw/rhif cofrestru i ni, ond byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n gwneud hynny, ac yna esbonio pam.
- Fel osteopath gallwch wneud gwahaniaeth os ydych chi'n darparu'r manylion hyn oherwydd...
- Cynnwys blwyddyn gymhwyso yn ogystal ag enw/rhif cofrestru, felly os nad yw ymatebwyr yn rhoi rhif cofrestru neu enw, bydd y flwyddyn gymhwyso yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am ba mor ddiweddar oedd y profiad.

- Hefyd, atgyfeirio i gymorth sefydliadol wedyn.

73. Roedd y sylwadau cyffredinol gan y cyfranogwyr yn cynnwys:

- Roedd consensws bod angen gwneud y gwaith hwn ar EDI a bod y grwpiau ffocws hyn yn ddefnyddiol fel sesiynau agoriadol.
- Roedd canfyddiad cyffredinol bod angen i'r maes osteopathi gau'r bwloch ar broffesiynau gofal iechyd eraill o safbwynt EDI, er mwyn cadw i fyny â newidiadau mewn cymdeithas.
- Roedd rhywfaint o awydd i weld pecyn o adnoddau DPP yn cael ei ddatblygu ar gyfer y wefan yn ymwneud â chyfle cyfartal a gwerth gwahaniaeth o safbwynt canfyddiad osteopathiaid ohonynt eu hunain fel ymarferwyr a/neu sut maen nhw'n cysylltu â chleifion sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol neu sut maen nhw'n gweithio gyda nhw.

74. Ddefnyddiwyd yr adborth a gawsom i lywio blog sydd wedi'i gyhoeddi. Diolch i'r grwpiau ffocws hyn, mae gennym ddealltwriaeth well o'r galluogwyr a'r rhwystrau, ac rydym wedi ceisio adlewyrchu hyn yn y blog diweddaraf hefyd, er enghraifft, trwy egluro pa wahaniaeth rydym yn gobeithio ei wneud trwy gasglu set gyflawn o ddata monitro EDI. Cyhoeddwyd y blog hwn ar 13 Ebrill 2022 o dan y teitl: Sut mae osteopathiaid yn ymateb i'n harolwg peilot EDI hyd yn hyn. Gellir gweld y blog hwn yma: [www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/blogs/how-osteopaths-are-responding-to-our-edi-pilot-so-far/](http://www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/blogs/how-osteopaths-are-responding-to-our-edi-pilot-so-far/)

**Atodiad B: Arolwg Peilot EDI: Ymatebion i gwestiynau am nodweddion gwarchoddedig (adran Gwybodaeth amdanoch chi)**

Gwybodaeth EDI	Nifer	Canran	
<b>Rhyw a Hunaniaeth Rhywedd</b>			
Gwryw	23	42%	
Benyw	29	53%	
Anneuaidd	0	0	
Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio	0	0	
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	5.5%	
Cyfanswm	55		
<b>Pa ragenwau neu neo-ragenwau ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd?</b>			
Hithau, hi, ei, hi ei hun	30	59%	
Yntau, ef, ei, ef ei hun	23	45%	
Hwythau, hwy/nhw, eu, eu hunain	0	0	
Ze, zir, zirs, zirsself	0	0	
Hir, hirs, hirsself	0	0	
Xe, xem, xyr, xyrs, xemself	0	0	
Ve, ver, vis, verself	0	0	
Rhywbeth arall	3	6%	
Cyfanswm	56		
<b>Ailbennu Rhywedd - A yw eich hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd i chi adeg eich geni?</b>			
Ydy	51	93%	
Nac ydy	1	2%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	5.5%	
Cyfanswm	55		
<b>Oedran</b>			
20-24	0	0	
25-29	4	7%	
30-34	3	5.5%	

35-39	3	5.5%	
40-44	8	14.5%	
45-49	5	9%	
50-54	8	14.5%	
55-59	14	25.5%	
60-64	6	11%	
65+	2	4%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	4%	
Cyfanswm	55		
<b>Anabledd</b>			
Gan ystyried hyn <sup>29</sup> , a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson ag anabledd?			
Ydw	9	16%	
Nac ydw	43	78%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	5.5%	
Cyfanswm	55		
<b>A oes gennych chi unrhyw un o'r anabledau, cyflyrau hirdymor neu namau canlynol?</b>			
Nid oes gennyf anabledd, cyflwr hirdymor neu nam	29	59%	
Dyslecsia, dyscalculia, dyspraxia	9	18%	
Niwroamrywiol (e.e. awtistiaeth, ADHD, Asperger's etc.)	3	6%	
Cyflwr iechyd corfforol hirdymor/cronig	6	12%	
Nam symudedd neu gyflwr cyhyrysgerbydol	2	4%	

<sup>29</sup> Mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n sylweddol ac yn hirdymor (h.y. sydd wedi para o leiaf 12 mis neu y disgwylir iddo bara o leiaf 12 mis) ac mae'n cael effaith anffafriol ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.



Nam ar y clyw	2	4%	
Nam ar y golwg	1	2%	
Nam ar y lleferydd	1	2%	
Cyflwr iechyd meddwl	2	4%	
Yn derbyn addasiad rhesymol	1	2%	
Mae gen i nam, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu nad yw wedi'i restru uchod (nodwch fanylion os dymunwch)	0	0	
Cyfanswm	56		
<b>Ethnigrwydd a hil</b>			
Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig	5	9%	
Du a Du Prydeinig	1	2%	
Cefndir Ethnig Cymysg	1	2%	
Gwyn neu Wyn Prydeinig	43	80%	
Cefndir Ethnig Arall	1	2%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	6%	
Cyfanswm	54		
Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig			
Bangladeshaid	0	0	
Indiaidd	3	60%	
Pacistanaid	1	20%	
Tsieiniaidd	0	0	
Unrhyw gefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig arall	1	20%	
Cyfanswm	5		
Du neu Ddu Prydeinig			
Affricanaidd	0		
Caribiaidd	1	100%	

Unrhyw gefndir Du neu Ddu Prydeinig, Affricanaidd neu Garibiaidd arall	0		
Cyfanswm	1		
<b>Cefndir Ethnig Cymysg</b>			
Gwyn ac Asiaidd	0	0	
Gwyn a Du Affricanaidd	0	0	
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0	
Gwyn a Tsieiniaidd	0	0	
Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall	1	100%	
Cyfanswm	1		
<b>Gwyn neu Wyn Prydeinig</b>			
Prydeinig	20	46.5%	
Sais/Saesnes	10	23%	
Gwyddel/Gwyddeles	3	7%	
Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	0	0	
Albanwr/Albanes	2	5%	
Cymro/Cymraes	0	0	
Sipsiwn/Teithiwr	0	0	
Pwylad/Pwyles	0	0	
Roma	0	0	
Unrhyw gefndir Gwyn neu Wyn Prydeinig arall	8	19%	
Cyfanswm	43		
<b>Grŵp Ethnig Arall</b>			
Arabaid	0	0	
Ffilipinaid	0	0	
Unrhyw grŵp ethnig arall	1	100%	
Cyfanswm	1		

<b>Crefydd</b>			
Anffyddiwr	10	18.5%	
Bwdhydd	1	2%	
Cristion	15	28%	
Hindŵ	1	2%	
Dyneiddiaeth/Dyneiddiwr	3	6%	
Iddew/Iddewes	0	0	
Mwslim	2	4%	
Pagan	1	2%	
Sikh	2	4%	
Ysbrydol	7	13%	
Unrhyw grefydd neu greddo arall (pob Agnostig)	3	6%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	9	17%	
Cyfanswm	54		
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>			
Arywiol	0	0	
Deurywiol	2	4%	
Hoyw/Lesbiaidd	6	11%	
Heterorywiol/syth	43	78%	
Panrywiol	1	2%	
Cwiar	0	0	
Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio	0	0	
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	5.5%	
Cyfanswm	55		
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>			
Priod	32	58%	
Partneriaeth sifil	5	9%	
Sengl	5	9%	

Wedi ysgaru	2	4%	
Gweddw	1	2%	
Cyd-fyw	8	14.5%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	4%	
Arall	0	0	
Cyfanswm	55		
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>			
Ydych chi'n credu bod y nodwedd warchoddedig 'beichiogrwydd a mamolaeth' <sup>30</sup> yn berthnasol i chi?			
Ydw	1	2%	
Nac ydw	52	94.5%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	4%	
Cyfanswm	55		
<b>Patrwm gweithio presennol</b>			
Amser llawn	31	56%	
Rhan-amser	20	36%	
Absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb mabwysiadu oherwydd cyfrifoldebau gofalu	0	0	
Gofalwr di-dâl	2	4%	
Ddim yn ymarfer	1	2%	
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	4%	
Arall	1	2%	
Cyfanswm	57		

<sup>30</sup>Mae 'beichiogrwydd' yn cyfeirio at y cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi, ac mae 'mamolaeth' yn cyfeirio at y cyfnod o 26 wythnos ar ôl geni neu gamesgoriad.